HANES A PHRIF NEGESEUON DIWRNOD Y LLUOEDD WRTH GEFN

Y Lluoedd Wrth Gefn
Mae'r Lluoedd Wrth Gefn wastad wedi chwarae rôl hanfodol yn ein Lluoedd Arfog, a thrwy eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb, maent yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r gwaith o amddiffyn diogelwch y genedl, gartref a thramor. Mae Milwyr Wrth Gefn yn ymroi eu hamser hamdden i wasanaethu yn y Lluoedd Wrth Gefn, ac maent yn cydbwyso eu bywyd bob dydd â gyrfa filwrol.

Mae Milwyr Wrth Gefn yn chwarae rôl ganolog ochr yn ochr â Milwyr Parhaol er mwyn bodloni gofynion Amddiffyn, gan ddarparu yn arbennig sgiliau mewn meysydd arbenigol fel meddygaeth a'r maes seiber. Yn gynyddol, mae Milwyr Wrth Gefn yn hyfforddi ac yn cael eu paru â Milwyr Parhaol ac yn gweithio ochr yn ochr â nhw yn ôl y gofyn. Bellach mae gan Milwyr Wrth Gefn fynediad at yr un offer a'r un dechnoleg â Milwyr Parhaol ac maent yn cael hyfforddiant heriol ac o ansawdd uchel, gan gynnwys mwy o gyfleoedd i hyfforddi dramor.

Ar hyn o bryd, mae Milwyr Wrth Gefn yn cefnogi ymgyrchoedd ledled y byd, gan gynnwys yn Afghanistan, maent yn gwrthsefyll bygythiad Daesh yn Irac, yn ogystal â chyflawni gweithrediadau gwrthderfysgaeth a gwrthsefyll herwlongwriaeth a chyflawni tasgau amddiffyn ar draws y byd.

Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn
Mae Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn yn gyfle i gydnabod a dathlu'r rôl bwysig a gyflawnir gan Filwyr Wrth Gefn o ran cefnogi gallu amddiffyn y DU, gan wneud cyfraniad gwerthfawr i'r genedl yn ychwanegol i'w swyddi arferol.

Cynhelir Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn ddydd Mercher 27 Mehefin 2018. Mae hwn yn gyfle i gydnabod cyfraniad gwerthfawr Milwyr Wrth Gefn i'n Lluoedd Arfog. Mae Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn, a arferai gael ei alw yn 'Diwrnod Gwisgo Lifrai Milwrol i'r Gwaith', yn gyfle i'r DU cyfan ddathlu ein Lluoedd Wrth Gefn ac i Filwyr Wrth Gefn ddangos balchder yn eu gwasanaeth.

Dangos eich cefnogaeth i Ddiwrnod y Lluoedd Wrth Gefn
Mae Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn yn gyfle i gyflogwyr gydnabod eu gweithwyr sy'n Filwyr Wrth Gefn a dathlu eu cyfraniad, ar yr un pryd â hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Lluoedd Wrth Gefn. Anogir cyflogwyr i wahodd eu gweithwyr sy'n Filwyr Wrth Gefn i ddod i'r gwaith yn eu lifrai (os yw hynny'n briodol). Gall cyflogwyr ddangos eu cefnogaeth hefyd drwy gynnal digwyddiadau a seminarau i hyrwyddo gwaith eu gweithwyr sydd hefyd yn Filwyr Wrth Gefn.

PRIF NEGESEUON

- Mae hwn yn ddiwrnod cenedlaethol i gydnabod cyfraniad rhagorol y Lluoedd Wrth Gefn i'r wlad hon.

- Mae Milwyr Wrth Gefn yn cael eu hanfon i gefnogi ymgyrchoedd ledled y byd, ac maent yn ymgymryd â rolau gwahanol, amrywiol ac weithiau, peryglus.

- Mae cymuned y Lluoedd Wrth Gefn yn amrywiol. Mae Milwyr Wrth Gefn yn dod o bob rhan o gymdeithas a phob math o gefndiroedd.

- Mae busnesau yn cydnabod y sgiliau all Milwyr Wrth Gefn eu cyfrannu i'w gweithle sifil ac maent yn eu cefnogi drwy'r mesurau a addawyd fel rhan o'u hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog.

- Mae ymuno â'r Lluoedd Wrth Gefn yn rhoi cyfle i chi fwynhau amrywiaeth o brofiadau arbennig a datblygu sgiliau newydd na fyddech yn eu cael yn eich bywyd bob dydd.

Cwestiynau Cyffredin

Fel Milwr Wrth Gefn, beth alla'i wneud i gefnogi Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn?
Os ydych chi'n Filwr Wrth Gefn mewn gwasanaeth, fe'ch gwahoddir i wisgo'ch lifrai i'r gwaith ar Ddiwrnod y Lluoedd Wrth Gefn i ddangos eich balchder yn eich gwasanaeth. Gallech hefyd siarad am eich profiadau yn y Lluoedd Wrth Gefn mewn sgwrs i'ch cydweithwyr, drwy sianeli cyfathrebu mewnol neu drwy ysgrifennu blog.

Fel cyflogwr, beth alla'i wneud i gefnogi Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn?
Os ydych chi'n cyflogi Milwyr Wrth Gefn, gallwch gefnogi Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn yn y lle cyntaf drwy annog eich gweithwyr sy'n Filwyr Wrth Gefn i wisgo eu lifrai i'r gwaith. Gallech hefyd arddangos posteri, rhoi erthygl ar y fewnrwyd neu ysgrifennu datganiad i'r wasg yn tanlinellu eich cefnogaeth i'r Lluoedd Wrth Gefn neu gynnal sgwrs yn y gweithle a threfnu bod eich gweithwyr sy'n Filwyr Wrth Gefn yn siarad. Anogir cyflogwyr i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd digidol gan gynnwys yr ymgyrch #SaluteOurForces lle mae sefydliadau yn rhannu lluniau ar gyfryngau cymdeithasol ohonynt yn saliwtio'r Lluoedd Arfog. Gall cyflogwyr hefyd gymryd rhan yn ein hymgyrch newydd 'Pwy yw arwr eich swyddfa' lle anogir cyflogwyr i ddathlu cyfraniad un o'u gweithwyr o gymuned y Lluoedd Arfog ar Twitter.

Ni allaf wisgo fy lifrai milwrol i'r gwaith. Beth allaf wneud fel arall i gefnogi Diwrnod y Lluoedd Arfog?
I rai proffesiynau, efallai na fydd yn briodol i chi wisgo'ch lifrai milwrol yn y gwaith. Yn yr achosion hyn, gall Milwyr Wrth Gefn a'u cyflogwyr gefnogi Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn trwy arddangos posteri, ysgrifennu erthyglau a chynnal digwyddiadau er mwyn cydnabod a dathlu gwasanaeth y Milwyr Wrth Gefn.

Alla'i wisgo fy lifrai milwrol yn gyhoeddus?
Er nad oes gwaharddiad ar wisgo lifrai milwrol yn gyhoeddus, bydd eich Pennaeth Milwrol neu'ch Pennaeth Gwasanaeth yn rhoi arweiniad i chi am yr hyn sy'n briodol yn eich amgylchiadau lleol chi. Gallai hyn gynnwys peidio â gwisgo'ch lifrai milwrol y tu allan i'ch gweithle; gorchuddio eich lifrai a bathodynnau milwrol pan fyddwch yn teithio i'r gwaith ac oddi yno; neu barhau i gyflawni'r arfer presennol. Ym mhob achos, dylech barhau i fod yn wyliadwrus a riportio unrhyw beth amheus ar unwaith.

Fel Oedolyn sy'n Gwirfoddoli gyda'r Cadetiaid, beth allaf wneud i gefnogi Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn? Er mwyn adlewyrchu eu cyfraniad hanesyddol i'r 'Diwrnod Gwisgo Lifrai Milwrol i'r Gwaith, croesawir Oedolion sy'n Gwirfoddoli gyda'r Cadetiaid i wisgo'u lifrai ar Ddiwrnod y Lluoedd Wrth Gefn os ydynt yn dymuno ac os yw eu cyflogwr yn cytuno. Byddant yn cael cyfarwyddyd ac arweiniad penodol gan eu sefydliad Cadetiaid.
Cliciwch yma i lawrlwytho pecyn gwybodaeth Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn.